



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Rhif Cyfeirnod: ICC 28-TP01
Rhif y Fersiwn: 1
Dyddiad yr adolygiad nesaf:
Gorffennaf 2027

Gweithdrefn Ddihalogi ar gyfer Dyfeisiau Meddygol a Chyfarpar Gofal y Gellir eu Hailddefnyddio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cyflwyniad a Nod

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi Polisi Dihalogi Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ddisgrifio'r camau a gymerir gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r rhai sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau yn y sefydliad ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru, o ran gweithredu canllawiau a safonau Dihalogi cyfredol ar gyfer dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal y gellir eu hailddefnyddio. Y nod yw sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ac y cedwir at y canllawiau a argymhellir a'r gofynion statudol.

Polisiau, Gweithdrefnau, Canllawiau Cenedlaethol, a Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Cysylltiedig

Mae polisiau a gweithdrefnau ar gael ar dudalen fewnrwyd [Polisiau Llywodraethu Clinigol a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://phw.nhs.wales/about-us/policies-and-procedures/policies-and-procedures-documents/clinical-governance-and-infection-control-policies/)<https://phw.nhs.wales/about-us/policies-and-procedures/policies-and-procedures-documents/clinical-governance-and-infection-control-policies/>:

- Polisi ar gyfer Dihalogi Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol y Gellir eu Hailddefnyddio a Ddefnyddir ar gyfer Gofal Defnyddwyr Gwasanaeth/Cleifion (Polisi ICC 28 TP01)
- Polisi Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol (ICC 69)
- Gweithdrefn Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol ICC 69/TP01
- Polisi Atal a Rheoli Heintiau (ICC 27)

Ar gael o dudalennau mewnwyd [Polisiau Rheoli Risg, Iechyd a Diogelwch ac Ystadau](#)

- [Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#):

- Polisi Iechyd a Diogelwch (ICC 10)
- Gweithdrefn rheoli gwastraff (ICC 63-TP01)
- Gweithdrefn ar gyfer cael gwared ar offer, cerbydau, dodrefn a nwyddau traul nad oes eu hangen neu sydd dros ben (ICC63-TP02)

Dogfennau eraill:

- [Profion Diogelwch Prydain/Undeb Ewropeaidd a rheoliadau bywleiddiad Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#)
- Cod Ymarfer ar Gyfer Atal a Rheoli Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd
<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/code-of-practice-for-the-prevention-and-control-of-healthcare-associated-infections.pdf>

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cod-y-marfer-ar-gyfer-atal-a-rheoli-heintiau-syn-gysylltiedig-a-gofal-iechyd.pdf> (llyw.cymru)

- [Dihalogi Dyfeisiau Meddygol: Cynllun Datblygu ar gyfer Sefydliadau Gofal Iechyd \(Cynllun Datblygu\)](#)
- [Llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol Cymru](#), yn arbennig adran 1.5.
- [UK 5-year Action Plan for Antimicrobial Resistance 2024 to 2029](#)
- Cynllun datblygu dihalogi dyfeisiau meddygol Iechyd Cyhoeddus Cymru
- [Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023](#)
- Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) (2013)
- Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM):
- 01-01 Dihalogi offer llawfeddygol (dyfeisiau meddygol) a ddefnyddir mewn gofal aciwt (ar gyfer rheoli a dilysu awtoclafau labordy):
- [Rhan A: Rheolaeth a Darpariaeth](#)
- [Rhan C: Sterileiddio stêm a stêm ar gyfer sterileiddio](#)
- 01-06 Dihalogi endosgopau hyblyg:
 - [Rhan F: Decontamination of Semi-Critical Ultrasound Probes; Semi-invasive and Non-invasive Ultrasound Probes](#)
 - 07-01 [Rheoli Gwastraff](#)Gofal Iechyd yn Ddiogel

Cwmpas

Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i'r holl staff sy'n gweithio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am ac/neu sy'n ymwneud â defnyddio dyfeisiau ac unrhyw elfennau o'r broses ddihalogi ar gyfer dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal y gellir eu haildefnyddio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu eiddo arall y GIG. Mae hefyd yn berthnasol i unrhyw staff (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u contractio i weithio yng ngwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran y sefydliad) sy'n ymwneud â defnyddio a dihalogi dyfeisiau a chyfarpar gofal iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru cyn iddynt gael eu harchwilio, gwasanaethu, cynnal a chadw neu atgyweirio. Rhaid i staff gadw at bolisiau a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dihalogi dyfeisiau meddygol a'u rheoli. Mae angen i bob aelod o staff sy'n defnyddio dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal y gellir eu haildefnyddio allu asesu risg a/neu gyflawni'r dulliau dihalogi cywir mewn modd cymwys. Mae dihalogi yn wyddor ynddi'i hun a dylid cael ei gyflawni gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol ac sy'n gymwys ar gyfer y dasg hon

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd wedi'i gynnal. Nid oes unrhyw grwpiau wedi'u nodi'n rhai yr effeithir arnynt yn negyddol gan y polisi hwn.

Cymeradwywyd gan

Grŵp Atal a Rheoli Heintiau

Dyddiad Cymeradwyo

Dyddiad Adolygu

Dyddiad Cyhoeddi

Cyfarwyddwr Gweithredol/ Cyfarwyddwr sy'n Atebol	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Awdur	Gail Lusardi, Nyrs Ymgynghorol, Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HCAI) a thrawsnewid COVID-19, tîm HCAI, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Rhagnodi sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd (HARP). Jennie Leleux, Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (Corfforaethol).

Ymwadiad

Os yw dyddiad adolygu'r ddogfen hon wedi mynd heibio, sicrhewch mai'r fersiwn rydych yn ei defnyddio yw'r fersiwn fwyaf cyfredol, naill ai drwy gysylltu ag awdur y ddogfen neu â'r tîm Llywodraethu Corfforaethol.

Crynodeb o adolygiadau/diwygiadau				
Rhif y fersiwn	Dyddiad Adolygu	Dyddiad Cymeradwyo	Dyddiad Cyhoeddi	
F1				Mae'r ddogfen Gweithdrefn Ddihalogi hon wedi'i datblygu i gydymffurfio â Chanllawiau Diheintio Lefel Uchel a gofynion Iechyd Cyhoeddus Cymru i lunio dwy ddogfen Polisi a Gweithdrefn ar wahân.

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	5
2.	Rolau a Chyfrifoldebau	6
3.	Diffiniadau	14
4.	Rheoli Dyfeisiau Meddygol	16
5.	Dulliau Dihalogi	21
6.	Olrhain a Chadw Cofnodion	26
7.	Storio Cynhyrchion Di-haint a Dyfeisiau Meddygol/CyfarparGofal wedi’u Dihalogi	27
8.	Cludiant	28
9.	Dihalogi cyfarpar cyn archwilio, gwasanaethu neu atgyweirio	29
10.	Monitro ac archwilio.....	29
	Atodiad 1 - Symbolau Pecynnu ar gyfer nwyddau/pecynnau.....	31
	Atodiad 2 – Byrfoddau ac Ystyron	33
	Atodiad 3 - Cylch Bywyd Dihalogi.....	34
	Atodiad 4 – Algorithm Dihalogi WHTM 01-06 rhan F	35
	Atodiad 5 - Pum egwyddor Glanhau gan Ddefnyddio Weips Arwyneb	36
	Atodiad 6 - Dihalogi cyfarpar gofal anymwthiol y gellir ei aildefnyddio	37
	Atodiad 7 - Rheoli gollyngiadau gwaed a hylif y corff.....	38
	Atodiad 8 – Enghraifft o dystysgrif ddihalogi	39

1. Cyflwyniad

Mae dihalogi yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio cyfuniad a hierarchaeth o brosesau, h.y. [glanhau, diheintio, sterileiddio](#). Gall dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal iechyd nad ydynt wedi'u dihalogi'n ddigonol fod yn fan cychwyn ar gyfer trosglwyddo micro-organebau a gallant wedyn achosi haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n digwydd o beidio â dihalogi dyfeisiau meddygol yn effeithiol (yn enwedig dyfeisiau ymwithiol) yn gostus a gallant arwain at drallod i gleifion/defnyddwyr gwasanaeth, mwy o forbidrwydd a hyd yn oed farwolaeth. Gall digwyddiadau o'r fath ddangos ansawdd gofal gwael ac arwain at golli enw da. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i ddiogelwch y defnyddiwr gwasanaeth drwy atal unrhyw heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hosgoi, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â defnyddio a rheoli dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal y gellir eu haildefnyddio. Er mwyn i Iechyd Cyhoeddus Cymru roi sicrwydd i'w hun fod gweithdrefnau dihalogi cadarn a chyson yn cael eu defnyddio, mae'r dogfennau uchod yn darparu canllawiau ac adnoddau penodol i staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth gywir i weithredu mewn modd cymwys:

Mae prosesau dihalogi effeithiol ar gyfer dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal yn hanfodol i sicrhau nad yw eitemau o'r fath yn peri risg haint i ddefnyddwyr gwasanaeth/cleifion a/neu staff gofal iechyd a/neu gontractwyr a gyflogir i ddefnyddio, gwasanaethu, cynnal a chadw ac atgyweirio cyfarpar meddygol. Mae angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried nid yn unig pa mor gydnaws yw'r cyfarpar a ddefnyddir, yn ogystal â'i ansawdd a diogelwch, ond hefyd y gofynion ar gyfer ei ddihalogi'n effeithiol.

Mae'n hanfodol bod dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal yn cael eu rheoli'n ddiogel er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio fel y'u cynlluniwyd, eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da, a'u bod yn cael eu dihalogi yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i'w defnyddio, Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel nad ydynt yn gartref i ficro-organebau pathogenig.

Mae'r weithdrefn ddihalogi hon ynghyd â pholisi dihalogi Iechyd Cyhoeddus Cymru yn benodol i'r dyfeisiau a'r cyfarpar sy'n cael eu defnyddio a'u dihalogi gan weithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn caffael gwasanaethau a ddarperir gan Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, e.e. sgrinio'r coluddyn. Bydd dihalogi cyfarpar yn yr achos hwn yn cael ei reoli yn unol â pholisïau a gweithdrefnau dihalogi a rheoli dyfeisiau meddygol unigol y Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd unigol. Fel y cyfryw, rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gael fframwaith sicrwydd cadarn sy'n cynnwys craffu ac archwilio, fel bod sefydliadau darparu yn gweithredu yn unol ag arferion gorau a chanllawiau cenedlaethol ar gyfer dihalogi fel y manylir yn y [Memoranda Technegol Iechyd Cymru \(WHTM\) a'r Nodiadau Adeiladau Iechyd Cymru \(WHBN\)](#) perthnasol, e.e. WHTM 01-01 rhannau AE, 01-06 rhannau AF, WHTM 03-01, WHBM 04-01 a chanllawiau grwpiau

ymgynghorol arbenigol fel [Joint Advisory Group on GI endoscopy](#) (JAG). Defnyddir safonau achredu JAG i ddiffinio gwasanaeth endosgopi diogel, priodol ac o safon uchel, a ddarperir gan weithlu wedi'i hyfforddi'n dda, sy'n cael llawer o gefnogaeth ac sy'n uchel ei gymhelliant.

NODER. Ni ddylai dyfeisiau untro gael eu hailbrosesu na'u hailddefnyddio o dan unrhyw amgylchiadau.

2. Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r adran hon yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Prif Weithredwr
- Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
- Grŵp Atal a Rheoli Heintiau
- Rheolwyr
- Staff
- Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau
- Rheolwr Iechyd a Diogelwch Gweithredol
- Arweinydd Dihalogi Gweithredol

2.1 Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfrifoldeb i sicrhau'r canlynol:

- Rhaid i gyfleusterau, gwasanaethau a chyfarpar a ddefnyddir gan y sefydliad ar gyfer dihalogi gydymffurfio â'r [Memoranda Technegol Iechyd Cymru](https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/publications-and-information/welsh-health-technical-memoranda-whtms-health-technical-memoranda-htms/) <https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/publications-and-information/welsh-health-technical-memoranda-whtms-health-technical-memoranda-htms/> a'r [Nodiadau Adeiladau Iechyd Cymru](#) perthnasol a ddarperir gan ganllawiau technegol ac arferion gorau [Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#), yn ogystal â chyfarwyddiadau Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) (<https://www.gov.uk/government/publications/report-a-non-compliant-medical-device-enforcement-process> <https://www.gov.uk/topic/medicines-medical-devices-blood/medical-devices-regulation-safety>)
- Rhaid rheoli gwaith dihalogi dyfeisiau meddygol yn unol â [pholisi Iechyd a Diogelwch Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a'r [Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) <https://www.hse.gov.uk/biosafety/blood-borne-viruses/methods-of-decontamination.htm> (gan gynnwys [Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd](#) (2002), a chanllawiau cysylltiedig https://www.hse.gov.uk/ppe/index.htm?utm_source=hse.gov.uk&utm_medium=referral&utm_campaign=guidance-push&utm_term=ppe&utm_content=home-page-popular [Cyfarpar Diogelu Personol \(PPE\)](#) (2022) <https://www.hse.gov.uk/coshh/> i

sicrhau diogelwch staff.

- Mesurir cydymffurfedd â phrosesau dihalogi gan ddefnyddio archwiliadau sy'n cynnwys arsylwi arferion, cwestiynau/adborth gan staff ac archwiliadau amgylcheddol. Bydd canlyniadau'r data a gesglir yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a'u monitro ganddo. Bydd Datix hefyd yn cael ei ddefnyddio i nodi digwyddiadau sy'n ymwneud â'r prosesau, y polisi ac unrhyw niwed dilynol. Fel isafswm, disgwylir i waith dihalogi dyfeisiau meddygol clinigol a chyfarpar gofal gael ei archwilio'n flynyddol oni nodir yn wahanol gan y gwneuthurwr ac/neu os bydd digwyddiad neu bryder yn cael ei godi ynghylch y broses ddihalogi o ran methodoleg neu allu.
- Mae staff clinigol yn cael hyfforddiant gorfodol ar Atal a Rheoli Heintiau lefel 1 a lefel 2 yn unol â'r gofyniad cenedlaethol. Bydd hyfforddiant yn cynnwys Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICPs) a defnydd o PPE priodol ar gyfer y dasg a asesir yn erbyn yr [hierarchaeth rheolaeth](#). Rhaid iddynt hefyd fod wedi'u hyfforddi'n gymwys ar gyfer dihalogi dyfeisiau a chyfarpar y maent yn eu defnyddio neu'n eu dihalogi. Dylai hyfforddiant mewn perthynas â dihalogi dyfeisiau neu gyfarpar penodol gael ei gwblhau gan staff â chymwysterau addas a/neu ddarparwyr achrededig a/neu gynrychiolwyr neu gyflenwyr/cwmnïau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen ar gyfer y ddyfais ac/neu os bydd y broses ddihalogi neu'r cynhyrchion a ddefnyddir yn cael eu newid. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys unrhyw fethodoleg benodol yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar. Bydd pa mor aml y caiff hyfforddiant ei gynnal a chanran cydymffurfedd yn cael eu monitro gan reolwr yr adran ac yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau.
- Darperir adnoddau digonol i sicrhau bod dyfeisiau/cyfarpar yn cael eu dihalogi gan ddefnyddio'r cynhyrchion a'r cyfarpar cywir yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i'w defnyddio a pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'u bod yn cael eu dihalogi gan ddefnyddio'r fethodoleg gywir ac mor aml ag y dylent. Dymuniad Iechyd Cyhoeddus Cymru yw bod gwaith dihalogi'n cael ei gynnal gan ddefnyddio technolegau awtomataidd/wedi'u dilysu, ac mae hyn yn unol â'r Memoranda Technegol Iechyd Cymru priodol hefyd. Gall adnoddau gynnwys, e.e. amser i gwblhau'r dasg, staff cymwys, deunyddiau a chynhyrchion glanhau, diheintyddion cydnaws a chyfarpar dihalogi arbenigol cysylltiedig.
- Mae systemau adrodd am ddigwyddiadau'r Ymddiriedolaeth, e.e. Datix, ar gael i staff eu defnyddio i roi gwybod am fethiannau dihalogi, anafiadau yn dilyn dod i gysylltiad, dyfeisiau meddygol ddim yn gweithio neu a ddefnyddir mewn modd amhriodol ac anad dim, unrhyw heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a amheuir neu a gadarnhawyd ar ôl defnyddio dyfeisiau.

Mae methu â chydymffurfio â gofynion statudol a deddfwriaethol yn gadael darparwr gofal iechyd yn agored i gael ei erlyn. Gallai'r sefydliad

fod yn destun ymgyfreitha pe na bai'n gallu profi bod systemau rheoli ar waith. Gallai hyn arwain at y sefydliad yn colli arian neu'i enw da yn ogystal â'r niwed posibl i'r claf neu staff.

2.2 Prif Weithredwr

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb strategol i sicrhau y glynir at y polisi Dihalogi tra bod yr awdurdod gweithredol ar gyfer dihalogi cyfarpar yn nwylo'r defnyddiwr unigol a rheolwyr yr adran glinigol.

2.3 Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio yw'r arweinydd gweithredol dynodedig ar gyfer dihalogi ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n adrodd i'r Bwrdd ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod y weithdrefn hon a'r polisi dihalogi yn cael eu gweithredu ac y glynir atynt ledled y sefydliad.

2.4 Grŵp Atal a Rheoli Heintiau

Mae'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau yn gyfrifol am:

- Cyfrannu at adolygu a chymeradwyo'r polisi hwn a pholisïau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau eraill.
- Derbyn, craffu a dadansoddi data sy'n ymwneud â chymhwyso'r weithdrefn hon, e.e. archwilio, gwyliadwriaeth, cydymffurfio â hyfforddiant wrth fonitro perfformiad y gwasanaethau
- Adolygu unrhyw ddigwyddiadau, cwynion a niwed yn ymwneud â defnyddio dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal gan gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, dyfeisiau nad ydynt yn gweithio, dod i gysylltiad â chynhyrchion.
- Adolygu'r camau gweithredu a nodwyd drwy ymchwiliadau i ddigwyddiadau a gwersi y mae angen eu dysgu ar gyfer y sefydliad.
- Uwchgyfeirio unrhyw bryderon difrifol o'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau i'r Bwrdd Gweithredol drwy'r arweinydd Gweithredol ar gyfer dihalogi.

2.5 Rheolwyr

Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cydymffurfio â'r Weithdrefn hon. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod gan staff yr adnoddau priodol i hwyluso gwaith dihalogi fel y manylir yn y weithdrefn hon.

Mae rheolwyr yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- Bod gan staff sy'n cyflawni tasgau dihalogi fynediad hawdd at bolisi

a gweithdrefn dihalogi Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ogystal â phrotocolau lleol neu sefydliadol cysylltiedig at ddefnydd gweithredol.

- Bod staff yn cael yr hyfforddiant priodol mewn perthynas â dihalogi, a dylai hyn gynnwys sut i ddihalogi dyfeisiau/cyfarpar y gellir eu hailddefnyddio, cadw at ganllawiau'r gwneuthurwr, polisi rheoli gwastraff ar gyfer gwaredu dyfeisiau neu gyfarpar meddygol;
- Bod y staff yn cydymffurfio â gofynion hyfforddiant gorfodol mewn Iechyd a Diogelwch, Atal a Rheoli Heintiau ac yn gymwys i ddefnyddio'r PPE priodol ar gyfer y dasg ddihalogi a gyflawnir. Bod cofnodion hyfforddiant ar gael i'w harchwilio ac ar gyfer rhoi sicrwydd.
- Bod rheolwyr yn cynnal archwiliadau lleol o'r prosesau dihalogi ac o gymhwysedd a chydymffurfedd staff unigol â pholisiau/gweithdrefnau (yn flynyddol o leiaf) i roi sicrwydd i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau.
- Bod staff wedi'u hyfforddi i nodi symbolau pecynnu ar nwyddau/pecynnau di-haint a rhai nad ydynt yn ddi-haint a ddefnyddir i wneud gweithdrefnau'n fwy cadarn (gweler **Atodiad 1**) fel eu bod yn nodi:
 1. Defnydd untro neu aildefnyddiadwy,
 2. Defnydd ar glaf unigol neu ddefnydd cyfyngedig
 3. Di-haint neu heb fod yn ddi-haint
 4. Nad yw'r dyddiad dod i ben wedi mynd heibio - dyddiad gweithgynhyrchu / dyddiad prosesu
 5. Sut i storio'r eitemau'n gywir o ran tymheredd a lleithder
 6. Unrhyw wybodaeth am waredu mewn modd diogel.
- Bod y systemau olrhain a ddefnyddir yn gadarn ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd, e.e. wrth ddihalogi chwiliadwyr uwchsain lled-gritigol ac endosgop mewn gwasanaethau a gomisiynir.
- Bod dyfeisiau untro yn cael eu defnyddio yn unol â chanllawiau'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd a'u bod yn cael eu dewis, yn ôl risg.
- Bod staff wedi'u hyfforddi i gyrchu systemau adrodd am ddigwyddiadau, e.e. Datix, ac adrodd trwyddynt, am unrhyw ddigwyddiad neu ddamwain y bu ond y dim iddo ddigwydd o ganlyniad i brosesau dihalogi a/neu reoli dyfeisiau.
- Bod cofrestr asedau dyfeisiau a chyfarpar meddygol cywir yn cael ei chadw ar gyfer eu canolfan sgrinio a'i bod yn cysylltu â chofrestr Dyfeisiau Meddygol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth. Gan weithio'n agos â'r Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol, bydd hyn yn sicrhau bod yna ddull wedi'i reoli sy'n caniatáu i Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod dyfeisiau meddygol yn addas i'r diben a fwriadwyd; mewn cyflwr diogel a defnyddiol ac yn bodloni'r safonau

diogelwch a deddfwriaethol angenrheidiol.

- Bod y gofrestr Asedau'n cael ei hadolygu'n rheolaidd (yn flynyddol o leiaf) neu wrth i eitemau gael eu hychwanegu a'u dileu mewn cydweithrediad â'r Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol. Dylai adlewyrchu'n gywir yr holl gyfarpar a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer y dyddiad prynu a diwedd oes y cynnyrch a argymhellir gan y gwneuthurwr, cydymffurfedd â gofynion gwasanaethu, cynnal a chadw ac atgyweirio yn ogystal â'r dull dihalogi.
- Bod digon o le storio ar gael fel bod dyfeisiau a chyfarpar meddygol yn cael eu storio'n ddiogel i atal difrod neu gamddefnydd ac yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr ynghylch tymheredd/lleithder/pecynnu ac ati. Ni ddylai mannau storio o'r fath fod yn hygyrch i bobl anawdurdodedig.
- Bod materion dihalogi a nodir mewn perthynas â dyfeisiau meddygol y gellir eu hailddefnyddio yn cael eu trafod a'u hadrodd i'r Grŵp Dyfeisiau Meddygol a'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau.
- Rhaid i asesiadau risg Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a thaflenni data Diogelwch Deunyddiau fod ar gael ar gyfer yr holl gemegion/cynnyrch dihalogi a ddefnyddir gan staff wrth y man defnyddio, gyda chyfarwyddiadau clir ynghylch beth i'w wneud os bydd niwed i berson ac/neu os bydd cemegion yn gollwng.
- Rhaeadru unrhyw ofynion neu wybodaeth ddihalogi ychwanegol i staff mewn modd amserol.
- Bod gwyliadwriaeth iechyd berthnasol yn cael ei chynnal lle bo'n briodol ar gyfer y rhai sy'n cyflawni dyletswyddau dihalogi, e.e. iechyd dwylo, iechyd anadlol.
- Bod staff yn cael eu hatgoffa o'u dyletswydd gofal o ran eu statws brechu eu hunain a'u hamddiffyniad rhag dod i gysylltiad â gwaed a hylif y corff, e.e. brechlyn HBV.
- Bod rheolwyr yn trafod cyfrifoldebau Atal a Rheoli Heintiau gyda'r aelod o staff yn rhan o'u prosesau gwerthuso blynyddol o staff sy'n gweithio yn y maes clinigol (fy nghyfraniad).
- Rhaid i unrhyw achos o drosglwyddo haint hysbys neu a amheuir sy'n ymwneud â dyfeisiau meddygol neu brosesau dihalogi gael ei uwchgyfeirio ar frys i'r arweinydd dihalogi gweithredol a'r arweinydd Atal a Rheoli Heintiau a fydd yn adrodd i'r arweinydd gweithredol. Yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Rheoli Digwyddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru, rhaid rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiad ar Datix yn y ffordd arferol o fewn 24 awr o nodi'r digwyddiad. Mae'n rhaid i unrhyw ddigwyddiadau sy'n dod o fewn y diffiniad 'Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol' gael eu hadrodd yn genedlaethol yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion.

- Mae manylion ynghylch sut i gyflwyno adroddiadau o'r fath wedi'u cynnwys yn y Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Digwyddiadau. [Gweithdrefn Adrodd a Rheoli Gweithio i Wella](#) I gael rhagor o wybodaeth, dylid ymgynghori â'r Rheolwr Risg a Gweithio i Wella neu'r tîm Gweithio i Wella.
- Bydd ymchwiliad sylfaenol cyflym yn cael ei gynnal i ddechrau gan y rheolwr lleol i bennu'r man cychwyn ac unrhyw gamau a gymerir ar unwaith cyn cynnal ymchwiliad trylwyr. Bydd adroddiad cryno o'r digwyddiad yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau, e.e. SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhelliad) a'i ychwanegu ar Datix. Bydd hwn yn disgrifio'r achosion gwirioneddol, camau gweithredu pellach sydd eu hangen, ac unrhyw wersi a ddysgwyd y mae angen rhoi gwybod amdanynt i wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru eraill neu'n ehangach, e.e. Labordy Profi Dyfeisiau Llawfeddygol, yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ac ati.

2.6 Staff

Mae staff sy'n defnyddio dyfeisiau ac/neu sy'n cyflawni unrhyw dasgau dihalogi yn gyfrifol yn unigol am:

- Mynychu hyfforddiant priodol a chynnal cymhwysedd mewn Atal a Rheoli Heintiau, prosesau dihalogi a rheoli dyfeisiau.
- Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael, yn ysgrifenedig ac ar-lein i gael gwybodaeth am faterion yn ymwneud â dihalogi.
- Nodi marciau pecynnu ar gyfer dyfeisiau untro a dyfeisiau y gellir eu haildefnyddio gan gynnwys gwirio a chofnodi dyddiadau dod i ben ar bob cynnyrch cyn ei ddefnyddio lle bo'n berthnasol.
- Defnyddio dyfeisiau untro yn unol â chanllawiau MHRA a'u dewis, yn unol â risg wedi'i dogfennu, yn lle dyfeisiau y gellir eu haildefnyddio.
- Cadw at ganllawiau'r gwneuthurwr a'r cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r ddyfais wrth ei defnyddio, yn ogystal ag wrth ddefnyddio unrhyw gyfarpar cemegol neu ddihalogi ar y ddyfais, a hefyd darllen y polisi rheoli gwastraff i gael gwared ar y ddyfais mewn modd diogel.
- Rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau mewn modd amserol trwy'r system adrodd am ddigwyddiadau, e.e. pan fo methiant dihalogi hysbys neu fethiant y bu ond y dim iddo ddigwydd, dyfais feddygol nad yw'n gweithio neu a ddefnyddir mewn modd amhriodol, anaf neu niwed o ganlyniad i naill ai gynnwys heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd neu anaf yn dilyn dod i gysylltiad â gwaed/hylifau'r corff neu gemegion.
- Rheoli dyfeisiau meddygol a chynhyrchion/cyfarpar dihalogi mewn

modd sy'n atal difrod a chadw at gyfarwyddiadau gweithgynhyrchu ar gyfer eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu.

- Rhaid peidio ag addasu dyfeisiau neu brosesau.
- Cwblhau cofnodion olrhain cywir a darllenadwy ar gyfer dyfeisiau dihalogi priodol.
- Cadw at bolisi a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dyfeisiau meddygol, dihalogi ac Iechyd a Diogelwch.

2.7 Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau

Mae'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau yn gyfrifol am:

- Sicrhau bod holl bolisiau a gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n brydlon o leiaf bob 3 blynedd a'u bod yn adlewyrchu tystiolaeth gyfredol a newydd.
- Sicrhau bod y polisi a'r weithdrefn ddihalogi yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n brydlon o leiaf bob 3 blynedd a'u bod yn adlewyrchu unrhyw dystiolaeth newydd gyfredol ar gyfer y tasgau dihalogi sy'n cael eu cyflawni neu'r ddyfais a'r cyfarpar a ddefnyddir.
- Darparu arweiniad ar y lefel ofynnol o hyfforddiant atal a rheoli heintiau sydd ei angen ar gyfer staff clinigol ac ar gyfer y rhai sy'n cyflawni dyletswyddau dihalogi sylfaenol sy'n gymesur â'u rôl.
- Darparu, arwain a chynghori rheolwyr ar gael mynediad at adnoddau am ddihalogi i gefnogi hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau gorfodol a gofynion hyfforddiant dihalogi penodol eu staff.
- Gweithio gydag arweinwyr gwasanaeth i sicrhau y gallant gael mynediad at unrhyw hyfforddiant penodol ar ddihalogi a defnyddio dyfeisiau, cyfarpar neu gynhyrchion. Gall hyn gael ei ddarparu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu gan ddarparwyr/gweithgynhyrchwyr arbenigol allanol. Dylid nodi pa mor aml y bydd hyfforddiant diweddarau'n cael ei gynnal a sut y bydd cymhwysedd yn cael ei gyflawni mewn cynlluniau hyfforddi.
- Gweithio gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru/Gwasanaethau Ystadau Arbenigol i gynnal gwybodaeth am ddihalogi ar gyfer y gwasanaeth yn rhan o grŵp dihalogi 'Cymru Gyfan' a chymryd rhan mewn archwiliadau dihalogi Cymru gyfan o gyfleusterau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd canlyniadau archwiliadau yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer sicrwydd.
- Cefnogi rheolwyr i gwblhau archwiliadau o waith dihalogi yn eu gwasanaeth a darparu'r offer angenrheidiol i wneud hynny.
- Cymryd rhan weithredol mewn unrhyw broses ymchwilio, e.e.

dadansoddiad o wraidd y broblem (RCA) neu adolygiad yn dilyn haint o unrhyw achos hysbys o drosglwyddo haint neu achos a amheuir mewn perthynas â defnyddio cyfarpar gofal meddygol a phrosesau dihalogi.

- Cymryd rhan mewn gwaith craffu cyn caffael mewn perthynas ag unrhyw ddyfeisiau meddygol a chynhyrchion dihalogi i sicrhau y

gellir cyflawni gwaith dihalogi effeithiol yn unol â pholisi Ymddiriedolaeth y GIG a bod cynhyrchion y cytunwyd arnynt yn cael eu defnyddio mewn cyfleusterau priodol.

- Bydd unrhyw risgiau a nodir o ran dihalogi annigonol a adroddir o'r prosesau sicrwydd sgrinio yn cael eu huwchgyfeirio i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau i ddechrau ac yna i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Dylai'r nyrs Atal a Rheoli Heintiau arweiniol gymryd rhan yn yr ymchwiliad i'r achosion sylfaenol.
- Sicrhau bod gofynion dihalogi ar gyfer sefyllfaoedd neu organebau penodol megis digwyddiadau ac/neu achosion o haint yn cael eu cyfleu, a bod canllawiau'n cael eu rhoi i'r holl staff perthnasol mewn modd amserol. Bydd yr arweinydd Atal a Rheoli Heintiau yn monitro ac yn ceisio sicrwydd gan reolwyr bod y gwaith gweithredu wedi'i gyflawni.
- Byddwn yn gweithio'n weithredol gydag Arweinydd Cynaliadwyedd Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod prosesau dihalogi yn gweithio tuag at fod yn garbon niwtral heb beryglu effeithiolrwydd y broses ddihalogi a diogelwch cleifion dilynol.

2.8 Rheolwr Iechyd a Diogelwch Gweithredol

Mae'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am:

- Cyngori ar addasrwydd (o safbwynt Iechyd a Diogelwch) yr holl bolisiau, gweithdrefnau, systemau gweithio a'r defnydd o gemegion sy'n gysylltiedig â'r broses Ddihalogi.
- Cyngori (o safbwynt Iechyd a Diogelwch) ar addasrwydd amgylcheddol ardaloedd gweithgaredd a ddefnyddir neu y bwriedir eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau dihalogi.
- Sicrhau bod asesiadau risg Iechyd a Diogelwch yn ymwneud â'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â dihalogi, gan gynnwys symud cyfarpar a dyfeisiau, yn cael eu cynnal yn ôl yr angen ac y rhoddir gwybod am y canlyniadau i'r Rheolwr priodol ac i'r Arweinydd Dihalogi a fydd yn ei dro yn cyflwyno i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau.
- Adrodd am bryderon neu ddigwyddiadau i'r Rheolwr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

2.9 Arweinydd Gweithredol Cyfrifol ar gyfer Dihalogi

2.9.1 Mae'r arweinydd dihalogi gweithredol yn gyfrifol yn sefydliadol am:

- darparu gwasanaethau dihalogi effeithiol, sy'n cydymffurfio'n dechnegol, a gefnogir gan y peiriannydd awdurdodi wedi'i gomisiynu drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau.
- gweithredu polisiau gweithredol ar gyfer dihalogi.
- sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau gweithredol penodol yn eu lle ar gyfer dihalogi pob dyfais feddygol, a bod y polisiau hyn yn diffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau'r holl bersonél a all fod yn ymwneud â defnyddio, gosod a chynnal a chadw cyfarpar dihalogi.
- monitro gweithredu'r polisiau a dylai fod â dealltwriaeth gymwys o ddihalogi dyfeisiau meddygol, yn ogystal â chanllawiau, deddfwriaeth a safonau.
- Mae angen i ddeiliad y swydd sy'n cyflawni rôl y person cyfrifol / yr arweinydd dihalogi gweithredol fod wedi cael hyfforddiant addas ym mhob agwedd ar y systemau dihalogi a ddefnyddir yn y sefydliad i gefnogi gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2.9.2 Peiriannydd Awdurdodi Allanol

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn comisiynu uwch beiriannydd dihalogi gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i weithredu'n beiriannydd awdurdodi allanol a darparu cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â dihalogi.

2.9.3 Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol

- Y Swyddog Diogelwch Dyfeisiau Meddygol yw'r Arweinydd Arbenigol ar gyfer rheoli dyfeisiau meddygol ar draws yr Ymddiriedolaeth.

3. Diffiniadau

Mae rhestr o fyrfoddau a'u hystyron yn **Atodiad 2**.

Mae **dihalogi** yn gyfuniad o brosesau sy'n dileu neu'n dinistrio achos o halogi, fel na all cyfryngau heintus neu halogion eraill gyrraedd safle sy'n agored iddynt mewn symiau digonol sy'n arwain at haint neu ymateb niweidiol arall. Gellir defnyddio lefelau gwahanol o ddihalogi yn dibynnu ar y ddyfais a'r driniaeth dan sylw. Mae angen i rai dyfeisiau fod yn ddi-haint yn y man defnyddio, e.e. nodwyddau, chwistrelli, offer llawfeddygol a gallant fod ar gyfer defnydd untro. Fe'i defnyddir i wneud unrhyw eitem y gellir ei haildefnyddio yn ddiogel i'w defnyddio ymhellach. Bwriad y broses ddihalogi yw:

- Gwneud yr eitem yn ddiogel i staff ei thrin neu ei defnyddio heb achosi perygl trosglwyddo haint.
- Gwneud yr eitem yn ddiogel rhag perygl trosglwyddo haint cyn ac ar ôl ei defnyddio ar ddefnyddiwr gwasanaeth/claf. Mae proses ddihalogi gywir hefyd yn sicrhau na fydd yr eitem wedi'i halogi o ddefnydd blaenorol a allai arwain at ddiagnosis anghywir, e.e. samplu meinwe. Mae proses ddihalogi gywir yn atal y defnyddiwr gwasanaeth/claf rhag dod i gysylltiad diangen â chemegion a ddefnyddir yn y broses ddihalogi.

Mae lefelau dihalogi fel a ganlyn:

- **Glanhau:** y broses sy'n cael gwared ar faeddu yn ffisegol gan gynnwys nifer fawr o ficro-organebau a'r deunydd organig y maent yn ffynnu arno.
- **Diheintio:** lleihau nifer y micro-organebau hyfyw ar gynnyrch i lefel a bennwyd eisoes fel lefel briodol ar gyfer ei drin neu ei ddefnyddio ymhellach. Mae glanhau bob amser yn digwydd cyn diheintio oni bai bod cynnyrch cyfun yn cael ei ddefnyddio.
- **Diheintio Lefel Uchel:** lleihau halogiad microbaidd yn sylweddol (h.y. mycobacteria, ffyngau, firysau a bacteria) ac yn ei gwneud yn ddiogel i'w aildefnyddio, er y gall niferoedd bach o sborau bacteriol fod yn bresennol o hyd.
- **Sterileiddio:** y broses a ddefnyddir i sicrhau nad oes micro-organebau hyfyw, gan gynnwys firysau a sborau bacteriol, ar gynnyrch. (BS EN 556- 1:2001). Mae glanhau a diheintio bob amser yn digwydd cyn sterileiddio.

Noder: Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgymryd â sterileiddio unrhyw ddyfais feddygol nac yn ailbroseu offer llawfeddygol. Mae eitemau di-haint yn cael eu prynu i mewn yn ôl yr angen.

Mae microbioleg yn gweithredu awtoclaf yn benodol ar gyfer dihalogi gwastraff labordy ac nid dyfeisiau meddygol. Mae cyfres o Weithdrefnau Gweithredu Safonol (SOPs) penodol yn berthnasol i'r awtoclaf hwn, sydd ar gael gan y Rheolwr Iechyd a Diogelwch, yr Is-adran Microbioleg:

- MDHS 008 Polisi diheintio a gollyngiadau
- MDHSE 004 Gweithdrefn weithredu safonol awtoclaf
- MDRA 004 Aseiad risg ar gyfer awtoclafau
- MDHS 021 Gweithdrefn ar gyfer gwahanu a dihalogi gwastraff clinigol
- CDHS 022 Gweithdrefn ar gyfer sterileiddio gwastraff a addaswyd yn enetig trwy awtoclafio

Rhaid ei ddilysu yn unol â chanllawiau priodol, sef WHTM 01/01 rhan A, C a HTM 2010 ar hyn o bryd ([Canlyniadau Chwilio - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru](#)).

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn caffael Byrddau

Iechyd/Ymddiriedolaethau i ddarparu gwasanaethau sgrinio'r coluddyn ond nid oes ganddo unrhyw unedau dihalogi, nid yw'n ailbrosesu endosgopau

ac nid yw'n sterileiddio offerynnau ei hun. Rhaid i staff sy'n gweithio mewn unedau dihalogi gael eu hyfforddi yn unol â dogfennau HTM 01 01 Cymru, Rannau A i E: Dihalogi dyfeisiau meddygol y gellir eu hailddefnyddio (2018) a 01 06 Rhannau A i F: Dihalogi Endosgopau Hyblyg. Bydd angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau drwy ei fframwaith sicrwydd bod unedau dihalogi sy'n darparu gwasanaethau i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu dilysu a'u gweithredu yn unol â'r canllawiau priodol.

4. Rheoli Dyfeisiau Meddygol

Mae **dyfais feddygol** yn cyfeirio at offeryn, cyfarpar, offer, deunydd neu eitem arall, p'un a yw'n cael ei ddefnyddio ar ei ben ei hun neu ar y cyd, ynghyd ag unrhyw feddalwedd sy'n angenrheidiol ar gyfer ei gymhwyso'n briodol, y bwriedir gan y gwneuthurwr ei ddefnyddio ar gyfer pobl at ddiben:

- i. Diagnosis, atal, monitro, trin neu liniaru afiechyd
- ii. Diagnosis, monitro, trin, lliniaru neu wneud iawn am anaf neu anfantais
- iii. Ymchwiliad, amnewid proses ffisiolegol, neu
- iv. Rheoli datblygiad.

Rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith ar gyfer defnyddio, cynnal a chadw a gwasanaethu dyfeisiau y gellir eu hailddefnyddio. Dylid cyfeirio at [Bolisi Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol \(ICC 69\)](#) Iechyd Cyhoeddus Cymru am arweiniad ar:

- Ddiffiniad ehangach dyfais feddygol a sut i'w defnyddio
- Y ddeddfwriaeth - canllawiau gorfodol, statudol ac arferion gorau sy'n llywodraethu dyfeisiau meddygol
- Asesu perfformiad Diogelwch ac Ansawdd
- Prosesau caffael
- Datgomisiynu a gwaredu
- Gweithdrefnau derbyn dyfais ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw arferol, storio dyfeisiau, atgyweiriadau
- Defnyddio cyfarpar wedi'i fenthyg
- Hyfforddiant
- Cydymffurfio
- Digwyddiadau niweidiol
- Defnydd at ddibenion heb eu dynodi

4.1 Rheolaethau allweddol ar gyfer dihalogi dyfeisiau'n effeithiol

Y gofynion hanfodol ar gyfer arferion dihalogi da ar gyfer dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal yw:

- a. Bod â rheolaethau rheoli cadarn ar waith.

- b. Sicrhau bod dyfeisiau meddygol yn cael eu defnyddio'n briodol, h.y.
- yn addas i'r diben
 - yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r dyfeisiau
 - yn cael eu cynnal, eu monitro a'u dilysu
 - yn cael eu defnyddio gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n llawn ac yn gymwys
 - yn cydymffurfio â safonau a gofynion
 - Bod systemau tracio ac olrhain yn cysylltu defnydd dyfeisiau â defnyddwyr gwasanaeth/cleifion unigol
 - Bod cofnodion cadarn yn cael eu cadw drwy gydol y broses ddihalogi
 - Bod cyfleusterau priodol ar gyfer dihalogi'n cael eu darparu; Amgylchedd adeiledig addas, wedi'i wahanu ar gyfer gweithgareddau budr/glân, dylai'r llif gwaith leihau unrhyw wallau anfwriadol gyda dyfeisiau glân/budr
 - Nid yw offer untro yn cael eu dihalogi i'w defnyddio wedyn
 - Defnyddio dulliau a chynhyrchion a chyfarpar dihalogi priodol i sicrhau'r canlyniad gofynnol, e.e. glanhau, diheintio, sterileiddio
 - Prosesau adrodd ac ymchwilio cadarn i ddigwyddiadau er mwyn rheoli methiannau a damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd
 - Systemau gwyliadwriaeth i ganfod niwed i ddefnyddwyr

gwasanaeth/cleifion/staff. (Gweler **Atodiad 3** – Cylch Bywyd Dihalogi)

4.2 Prynu dyfeisiau a chyfarpar meddygol y mae angen eu dihalogi.

Dylid prynu dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal ar y cyd â rheolwyr, defnyddwyr, arweinwyr iechyd a diogelwch, peirianwyr (os yw'n briodol) a'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau. Er mwyn sicrhau y gellir cyflawni gwaith dihalogi effeithiol a bod risgiau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu nodi, rhaid ymgynghori â'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau ynghyd â'r swyddog diogelwch dyfeisiau meddygol a chyfrannu at brosesau cyn caffael dyfeisiau a chyfarpar meddygol newydd a ddefnyddir mewn gofal clinigol. Cyn prynu dylid asesu'r canlynol

- A yw cynnyrch untro neu gynnyrch y gellir ei aildefnyddio yn fwy priodol yn seiliedig ar risg haint?
- Pa mor hawdd yw dihalogi, e.e. a oes angen datgymalu'r ddyfais cyn ei phrosesu a allai gynyddu'r tebygolrwydd o ddod i gysylltiad â phathogenau?
- A oes angen rhagofalon penodol a PPE ac os felly beth?
- A yw'r cyfleuster yn addas i gyflawni'r broses ddihalogi yn ddiogel, e.e., awyru, golau, sinc/arwynebau dihalogi, storio cynhyrchion a chyfarpar dihalogi
- A oes gan y sefydliad y gallu i ddihalogi dyfeisiau â chydrannau trydanol, fel y disgrifir gan y gwneuthurwr?
- A yw oes mewn defnydd y ddyfais wedi'i nodi gan y gwneuthurwr?
- A ellir cyflawni'r dull glanhau/dihalogi a nodir gan gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r dyfeisiau'n ddiogel yn unol â pholisïau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau, Iechyd a

Diogelwch, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, rheoli a dihalogi dyfeisiau meddygol?

- Beth yw'r gost sy'n gysylltiedig â chynhyrchion neu gyfarpar glanhau penodol a dewisiadau eraill ynglŷn â chynaliadwyedd, e.e. a all yr eitem wrthsefyll y defnydd o gynhyrchion cyfredol sy'n cynnwys Clorin, neu gynhyrchion diheintio eraill a argymhellir, sy'n ofynnol gan ddiheintio lefel uchel (HLD) ac os felly pa fath (hydrogen perocsid o'i gymharu â UVC)?
- A ystyriwyd cynaliadwyedd ac effaith amgylcheddol wrth ddefnyddio'r cynnyrch neu'r cyfarpar ar hyd ei oes ac wrth waredu?
- A oes angen hyfforddiant penodol ar staff i ymgymryd â'r broses ddihalogi a phwy fydd yn darparu'r hyfforddiant hwnnw?
- Os yw'r cynnyrch yn sensitif i wres neu bwysau, pa ddulliau eraill o ddihalogi a argymhellir, ac a ellir eu cyflawni?
- A dynnwyd sylw at risgiau penodol ar gyfer staff agored i niwed a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth? e.e. alergeddau i gydrannau cemegol cynhyrchion
- A all yr Ymddiriedolaeth gydymffurfio â'r gofynion gwaredu a nodir gan y gwneuthurwr a chanllawiau Cenedlaethol.

4.3 Asesiad Risg:

Rhaid asesu'r dull dihalogi a ddewisir yn unol â:

- Y risg sy'n gysylltiedig â defnyddio dyfais neu ddarn arbennig o gyfarpar.
- Yr hyn y deuir i gysylltiad ag ef yn ystod y defnydd a'r tebygolrwydd o halogiad
- Y risg o drosglwyddo haint i gleifion a staff os yw'r broses ddihalogi'n annigonol.
- Cyfarwyddiadau'r Gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r ddyfais.

Cyn ymgymryd ag unrhyw waith ailbrosesu, dylai staff ddefnyddio'r offeryn asesu risg i bennu'r broses lanhau, diheintio a sterileiddio sydd ei hangen. Dylid dilyn canllawiau'r gwneuthurwr bob amser wrth ddiheintio unrhyw gyfarpar/offer.

Defnyddir Dosbarthiad Spaulding i haenu'r risg o drosglwyddo haint yn seiliedig ar feinwe'r claf y bydd y ddyfais yn cysylltu â hi yn ystod y defnydd. Mae dosbarthiad y ddyfais yn pennu lefel y dihalogi sydd ei hangen.

Dosbarthiad risg haint sy'n gysylltiedig â dihalogi dyfeisiau meddygol yn ôl Spaulding:

Dosbarthiad Spaulding	Cymhwyso Dyfais Neu Weithdrefnau	Risg o Drosglwyddo Haint	Argymhelliad/lefel Ddihalogi
-----------------------	----------------------------------	--------------------------	------------------------------

Critigol	<p>Wedi'i gyflwyno i feinwe di-haint neu lif y gwaed e.e. offer llawfeddygol; nodwyddau mewnythiennol, nodwyddau biopsi.</p> <p>Mewn cysylltiad agos â chroen wedi torri neu bilenfwcaidd wedi torri.</p>	Uchel	Glanhau a diheintio ac yna Sterileiddio
Lled-gritigol	<p>Mewn cysylltiad â philenni mwcaidd nad ydynt yn treiddio i feinwe di-haint, e.e. endosgopau hyblyg, sbecwla'r wain, sgopau trawsweiniol.</p> <p>Mewn cysylltiad â chroen cyfan cyn treiddio i feinwe di-haint, e.e. biopsi'r fron, gosod cathetrau gwythiennol canolog (CVC).</p> <p>Wedi'i halogi ag organebau arbennig o ffyrnig neu sy'n hawdd eu trosglwyddo.</p> <p>Cyn ei ddefnyddio ar gleifion ag imiwnedd gwan.</p>	Canolig	<p>Glanhau ac yna Diheintio Lefel Uchel (HLD) neu sterileiddio</p> <p>NODER: Lle bydd sterileiddio yn difrodi cyfarpar, gellir glanhau ac yna gynnal HLD fel dewis arall</p>
Heb fod yn gritigol	<p>Mewn cysylltiad â chroen iach heb ei heintio/gytrefu.</p> <p>Cyfarpar gofal, e.e. stethosgop, Cyffiau pwysedd gwaed, sofffa archwilio, troli triniaeth.</p>	Isel	Glanhau a diheintio lefel isel os oes angen.

O dan Ddosbarthiad Spaulding, mae chwiliedyddion uwchsain sy'n dod i gysylltiad â chroen wedi torri neu bilen fwcaidd gyfan yn cael eu hystyried yn ddyfeisiau lled-gritigol a dylent gael eu glanhau â llaw ac yna dylid cynnal diheintio lefel uchel (HLD) rhwng pob defnydd ar glaf. Yn ogystal, argymhellir yn gryf bod HLD yn cael ei gynnal ar chwiliedyddion a ddefnyddir ar groen cyfan pan gaiff ei ddefnyddio cyn triniaeth ymwthiol, e.e. biopsi'r fron, gosod llinell wythiennol ganolog, cyn allsugno ceudod

corff. Cafwyd adroddiadau achos o drosglwyddo haint o ganlyniad i chwiliedyddion uwchsain yn cael eu glanhau ac/neu eu diheintio lefel isel yn unig cyn triniaeth ymwthiol. Felly bydd gwasanaethau sgrinio'r fron Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadw at [WHTM 01-01 \(rhan F\) Dihalogi endosgopau hyblyg Rhan F: Decontamination of Semi- Critical Ultrasound Probes; Semi-invasive and Non-invasive Ultrasound Probes](#) wrth ddihalogi chwiliedyddion uwchsain pan gânt eu defnyddio cyn/yn ystod gweithdrefnau biopsi ar y fron (gweler **Atodiad 4**).

4.4 Cyfarpar Gofal

Gellir dosbarthu cyfarpar gofal fel naill ai:

Defnydd untro – cyfarpar a ddefnyddir unwaith ar un claf yna sy'n cael ei daflu. Ni ddylid byth aildefnyddio'r math hwn o gyfarpar, dim hyd yn oed ar yr un claf. Mae'r pecyn yn cynnwys y symbol yma:



Dyma rai enghreifftiau:

- Nodwyddau a chwistrellau - ni ddylid byth eu defnyddio ar gyfer mwy nag un claf na'u haildefnyddio ar gyfer meddyginiaeth ychwanegol.
- Sbecwla tafladwy ar gyfer sgrinio serfigol
- Dyfeisiau mewnwythiennol
- Nodwyddau biopsi o'r fron
- Prismau tonometer, sbecwla offthalmosgop/otosgop

1. **Defnydd ar glaf unigol** – cyfarpar y gellir ei aildefnyddio ar yr un claf. Rhaid nodi enw'r claf arno a rhaid cael gwared arno ar ôl gorffen ei ddefnyddio ar y claf hwnnw. Yn aml bydd angen dihalogi rhwng defnydd ar yr un claf, e.e. slingiau teclyn codi, setiau nebiwleiddiwr a masgiau ocsigen,

Cyfarpar ymwthiol y gellir ei aildefnyddio - yn cael ei ddefnyddio unwaith ar glaf ac yna'n cael ei ddihalogi cyn ei ddefnyddio ar y claf nesaf, e.e. endosgopau ac offer llawfeddygol sydd fel arfer angen gwaith HLD neu sterileiddio

Cyfarpar anymwthiol y gellir ei aildefnyddio (cyfeirir ato'n aml fel cyfarpar cymunedol) - Gall cyfarpar gofal y gellir ei aildefnyddio gael ei halogi â gwaed, hylifau eraill y corff, secretiadau ac ysgarthion, a gall trosglwyddo cyfryngau heintus wrth ddarparu gofal. Mae'r math hwn o gyfarpar (a elwir yn aml yn offer cymunedol) yn cael eu haildefnyddio ar fwy nag un claf ac mae angen eu dihalogi rhwng pob defnydd neu rhwng tasgau gwahanol ar yr un claf. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer defnydd untro neu un claf. Mae enghreifftiau o eitemau o'r categori hwn yn cynnwys: soffas, dyfeisiau codi a chario, stethosgopau, cadeiriau olwyn, chwiliedyddion uwchsain, peiriannau pelydr-x mamograffeg, fframiau

camera sgrinio llygaid diabetig.

Noder: Nid yw'r holl gyfarpar gofal yn cael ei ddilysu na'i ddisgrifio gan y gweithgynhyrchu fel dyfeisiau meddygol ond mae'n ofynnol i weithgynhyrchwyr ddarparu cyngor ar ddihalogi ar gyfer yr holl gynhyrchion y mae 'CE' wedi'i nodi arnynt.

Noder: Ni ddylai dyfeisiau untro gael eu hailbroseu na'u hailddefnyddio o dan unrhyw amgylchiadau.

5. Dulliau Dihalogi

Yn dilyn yr asesiad risg, bydd y ddyfais neu'r cyfarpar yn cael ei (d)dosbarthu (critigol, lled-gritigol neu heb fod yn gritigol), a fydd yn nodi lefel y dihalogi sydd ei hangen. Bydd y dull dihalogi a ddewisir yn cael ei bennu ar sail gwybodaeth a ddarperir gan wneuthurwr y ddyfais neu'r cyfarpar a'i gyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio a bydd yn dibynnu ar:

- gwres, gwasgedd, lleithder a goddefgarwch cemegol y gwrthrych.

Argymhellir defnyddio systemau awtomataidd/dilysu.

Er enghraifft, ni fydd chwiliedyddion uwchsain yn gwrthsefyll tymheredd uchel neu sterileiddio gan ddefnyddio pwysedd gan stêm, ni ellir eu trochi'n llawn oherwydd y cydrannau trydanol a rhaid defnyddio cadachau heb naddion llin (*lint*) penodol i lanhau'r pennau i atal crafiadau i'r arwyneb.

Rhaid cadw at ganllawiau'r gwneuthurwr, a rhaid i systemau fod yn gydnaws, er mwyn sicrhau nad yw priodweddau'r ddyfais yn cael eu newid trwy drin, ailbroseu neu ddihalogi'n anghywir.

Rhaid dihalogi cyfarpar gofal anymwthiol y gellir ei aildefnyddio (**Atodiad 4**):

- Rhwng pob defnydd
- Ar ôl dod i gysylltiad â gwaed neu hylif y corff neu le mae achos gweladwy arall o halogi
- Ar adegau rhagnodedig rheolaidd yn rhan o brotocol glanhau cyfarpar a
- chyn arolygu, gwasanaethu, cynnal a chadw neu atgyweirio.

Mae angen protocol clir ar **bob** maes clinigol ar gyfer pob dyfais a chyfarpar gofal a ddefnyddir sy'n manylu ar:

- Fethodoleg glanhau/diheintio.
- Pa mor aml y mae glanhau/diheintio'n digwydd
- Y cynnyrch/cynhyrchion dihalogi sydd i'w defnyddio.
- Y rheolaethau Iechyd a Diogelwch, ac Atal a Rheoli Heintiau gan gynnwys PPE priodol.

- Tystiolaeth bod y gwaith glanhau/diheintio wedi'i wneud, dyddiad ac amser gwneud y gwaith, a'r person a'i cyflawnodd. Gellir cofnodi hyn yn rhan o amserlen lanhau neu brotocol ôl-ddefnydd a/neu ddefnyddio labeli/rholyn 'I am clean' sydd ar gael yn fasnachol. Mae angen data ychwanegol ar gyfer HLD (gweler adran 7. Orlhain).

Dylid ceisio cyngor gan y Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau ar heintiau penodol. Gellir darparu canllawiau ychwanegol os bydd digwyddiad neu achos o haint yn digwydd, neu os bydd sefyllfa bandemig arall yn codi a fydd yn cael blaenoriaeth dros y weithdrefn arferol hon.

5.1 Glanhau

Mae glanhau yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer unrhyw broses ddihalogi cyn diheintio neu ddiheintio a sterileiddio. Rhaid glanhau cyn diheintio (oni bai bod cynnyrch glanhau diheintio cyfun yn cael ei ddefnyddio). Bydd glanhau â llaw neu lanhau'n fecanyddol yn dibynnu ar yr hyn y bydd y ddyfais yn ei wrthsefyll ac yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r ddyfais.

Mae glanhau mecanyddol, e.e. defnyddio peiriant golchi-diheintydd dilys neu beiriant uwchsonig yn darparu proses lanhau ddilys ac fe'i defnyddir ar gyfer, e.e. endosgopau ac offer llawfeddygol, a dylid ei ddefnyddio ar gyfer dyfeisiau critigol a lled-gritigol os ydynt yn gydnaws. Fodd bynnag, ni all pob dyfais wrthsefyll glanhau mecanyddol ac felly glanhau â llaw fydd y dull a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru, e.e. chwiledyddion uwchsain a dyfeisiau meddygol.

Rhaid glanhau â llaw mewn ffordd drefnus a rhesymegol i sicrhau bod pob rhan o'r ddyfais neu'r cyfarpar wedi'i glanhau yn y drefn gywir:

- o'r brig i'r gwaelod,
- o'r tu mewn i'r tu allan,
- o'r rhannau glân i'r rhannau budr,
- yna ailosod y ddyfais/cyfarpar yn gywir i sicrhau nad yw ail-heintio yn digwydd yn ystod y broses.

Mae **Atodiad 5** yn dangos y dull cywir o lanhau arwynebau gan ddefnyddio'r dull 's' o sychu, i sicrhau bod pob arwyneb yn cael ei lanhau.

Mae glanedydd aml-bwrpas niwtral mewn hydoddiant o ddŵr cynnes o 0.1% neu weip tafladwy wedi'i drwytho gan lanedydd fel arfer yn ddigonol ar gyfer glanhau dyfeisiau meddygol a chyfarpar cymunedol nad ydynt yn gritigol (soffas archwilio, platiau'r fron ac ati) nad ydynt wedi'u halogi gan waed neu hylifau'r corff yn effeithiol oni bai cynghorir fel arall gan y gwneuthurwr. Os oes tystiolaeth bod gan y defnyddiwr gwasanaeth haint ar hyn o bryd neu haint a amheuir ac/neu fod yr eitem wedi'i halogi gan waed neu hylifau'r corff, yna bydd diheintio'n digwydd ar ôl y glanhau, neu ddefnyddio glanedydd/cynnyrch diheintio cyfun cymeradwy.

Mae'n bosibl y bydd rhai dyfeisiau neu gyfarpar yn gofyn am gynhyrchion penodol ar gyfer glanhau a/neu ddihalogi yn unol â chyfarwyddiadau'r

gwneuthurwr ar sut i'w defnyddio.

5.2 Diheintio

Dim ond lle nad oes angen sterileiddio a lle mae glanhau â glanedydd yn annigonol y dylid ymgymryd â diheintio. Mae diheintio â llaw gan ddefnyddio diheintyddion cymeradwy yn ddigonol ar gyfer eitemau nad ydynt yn gritigol, bydd angen diheintyddion Lefel Uchel ar gyfer dyfeisiau lled-gritigol. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu cysondeb o ganlyniad i ffactorau dynol lle defnyddir diheintio â llaw.

Rhaid i bob diheintydd fod wedi'i gymeradwyo a bod yn gydnaws i'w ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio dyfeisiau a pholisi Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau a rheoli dyfeisiau meddygol. Gall defnyddio cynhyrchion nad ydynt wedi'u nodi neu heb gadw at gyfarwyddiadau gweithgynhyrchu gynyddu'r risg o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a dirymu gwarant y ddyfais. Os defnyddir cynhyrchion heb eu cymeradwyo, dylid gwneud hynny yn dilyn asesiad risg cadarn gyda'r arweinydd Atal a Rheoli Heintiau a dyfeisiau meddygol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ac o bosibl y gwneuthurwr. Dylid cynnwys cynhyrchion amgen ar y gofrestr risg ar gyfer y gyfarwyddiaeth honno a'u cymeradwyo drwy'r pwyllgor Atal a Rheoli Heintiau fel bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn derbyn atebolrwydd os bydd proses ddihalogi'n methu neu os bydd dyfais yn cael ei difrodi.

Mae gweithgynhyrchwyr yn darparu diheintyddion mewn nifer o systemau dosbarthu, h.y. weips, hylifau arllwys, chwistrellau, ar gyfer trochi, anwedd. Os cânt eu defnyddio, rhaid i broses awyru'r ystafell fod yn briodol ac wedi'i nodi yn y daflen ddata diogelwch cynhyrchion (MSDS). Rhaid i'r rhai a ddefnyddir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru fod wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio i sicrhau eu bod yn gynhyrchion wedi'u dilysu sy'n bodloni [profion Diogelwch Prydain/Undeb Ewropeaidd a rheoliadau bywleiddiaid yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#) fel bod eu priodweddau gwrthficrobaidd yn cwmpasu'r sbectrwm gweithgaredd sydd ei angen ar gyfer y ddyfais yn erbyn, e.e. firysau, bacteria, sborau, ffyngau.

Mae rheoliadau profi allweddol yn cynnwys:

- **BS EN 14485** sy'n diffinio'r broses dreialu a phrofi sy'n ofynnol, ac sy'n gofyn bod fformwleiddiadau hylif yn pasio.
- **BS EN 13727** ac **EN1276** sy'n asesu gweithgaredd bacteriol.
- Gall diheintyddion **BS EN 14476** fod â gweithgaredd firwsleiddiol llawn; gweithgaredd firwsleiddiol cyfyngedig a feirws amlenedig yn unig.

Mae'n bosibl bod cynhyrchion eisoes wedi'u gwanhau neu fod angen eu hailgyfansoddi ond beth bynnag fo'r cynnyrch neu'r system ddosbarthu, rhaid i'r staff sy'n eu trin gael hyfforddiant digonol i'w defnyddio'n ddiogel

yn unol â rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Dylid ymgynghori â'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau i gael cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw ddiheintyddion newydd a brynir.

Wrth ddefnyddio diheintyddion:

- Rhaid i staff gael eu hyfforddi'n ddigonol a'u hasesu i fod yn gymwys i drin a dihalogi cynnyrch gan gynnwys diheintyddion.
- Peidiwch byth â'u cymysgu â chynhyrchion eraill.
- Dylid eu gwanhau yn y modd cywir: mae crynodiadau uwch neu is yn wastraffus a gallent fod yn niweidiol.
- Gwiriwch ddyddiadau dod i ben - ni ddylid eu defnyddio y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw. Nodwch ddyddiad agor y cynnyrch gyntaf a'i waredu yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr o ran y dyddiad defnyddio erbyn ar ôl ei agor.
- Lle mae angen gwanhau neu gymysgu cemegion, defnyddiwch hydoddiannau wedi'u paratoi'n ffres bob amser a rhaid eu dyddio a'u labelu yn unol â chryfder, e.e. hypoclorit 1000ppm.
- Peidiwch â storio cynhyrchion ailgyfansoddedig/wedi'u gwanhau yn hwy na'r hyn a argymhellir, (24 awr fel arfer ond cyfeiriwch at ganllawiau'r gwneuthurwr).
- Peidiwch byth â thywallt toddiannau i gynwysyddion nad ydynt wedi'u dynodi neu gynwysyddion sydd wedi cynnwys cynnyrch gwahanol o'r blaen.
- Defnyddiwch PPE priodol a dillad amddiffynnol a ddarperir gan y cyflogwr.
- Sicrhewch fod yr ardal yn cael ei hawyru'n ddigonol pan fydd y cynnyrch yn cael ei ddefnyddio.
- Rhowch wybod ar unwaith am unrhyw ddigwyddiadau anffafriol neu achosion o ddod i gysylltiad sy'n ymwneud â'r diheintydd.
- Sicrhewch fod pecynnau gollyngiadau ar gael os yw llawer o ddiheintyddion hylif yn cael eu defnyddio neu eu storio i'w defnyddio.
- Dylech gadw at reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ar gyfer data diogelwch a storio.
- Dylech waredu cynhyrchion gwastraff, gan gynnwys cynwysyddion gwastraff, yn unol â pholisi rheoli gwastraff.

(Gweler **Atodiad 6**) ar gyfer rheoli gollyngiadau gwaed a hylif y corff.

5.3 Golchwr-diheintyddion awtomataidd

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddiheintyddion golchi awtomataidd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a ddefnyddir i ddihalogi dyfeisiau meddygol a ddefnyddir ar ddefnyddwyr gwasanaeth/cleifion.

5.4 Dihalogi Cyfarpar a Dyfeisiau ar ôl eu defnyddio ar ddefnyddiwr gwasanaeth/claf heintus hysbys/amheuol.

Rhaid cymhwyso egwyddorion Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICPs) bob amser ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth gan nad yw'n hysbys pwy sy'n heintus neu ddim yn heintus, yn enwedig os nad oes ganddynt unrhyw symptomau.

Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hannog i aildrefnu eu hapwyntiad os ydynt yn teimlo'n sâl a/neu'n datblygu symptomau haint aciwt, gan gynnwys symptomau anadlol, symptomau gastroberfeddol neu frech ar y croen ac ati nes eu bod wedi gwella. Fel arall, dylid sgrinio, a defnyddio rhagofalon Atal a Rheoli Heintiau.

Dylai staff gymryd camau priodol i ddihalogi'r amgylchedd (gweler y polisi glendid amgylcheddol) a'r cyfarpar/dyfeisiau a ddefnyddir cyn ac ar ôl pob apwyntiad.

Os yw'n hysbys neu os amheuir bod y claf yn heintus, efallai y bydd angen defnyddio diheintydd ychwanegol ar gyfer cyfarpar a dyfeisiau cymunedol yn ogystal â glanhau a/neu ddefnydd ychwanegol o ddyfeisiau untro (gweler **Atodiad 7**).

Mae'r un peth yn berthnasol i'r rhai y mae'n hysbys, yr amheuir neu sy'n datgan eu bod wedi'u cytrefu neu wedi'u heintio ag organebau sy'n gysylltiedig â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd megis *Stafylococws Awrëws* sy'n gwrthsefyll Metisilin (MRSA), Organebau ag Ymwrthedd Gwrthficrobaidd sy'n Arwyddocaol yn Glinigol (CSARO) neu firysau a gludir yn y gwaed. Os yw'n hysbys eu bod yn heintus, trefnwch i'w gweld ar ddiwedd y dydd os yw'n bosibl. Serch hynny, nid yw'n ofyniad hanfodol wrth ymdrin â'r achosion hyn a gofal y defnyddiwr gwasanaeth ddylai fod yn flaenoriaeth bob amser. Gellir cysylltu â'r Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau am gyngor pellach.

Gweler y Polisi Rheoli Gwastraff ar sut i waredu gwastraff a gynhyrchir gan gleifion â heintiau neu sydd wedi'u cytrefu ag organebau sy'n gwrthsefyll cyffuriau.

6. Olrhain a Chadw Cofnodion

Rhaid i systemau tracio ac olrhain ar gyfer dyfeisiau critigol a lled-gritigol y mae angen eu diheintio a/neu'u sterileiddio gynnwys cofnodion cywir o'r holl brosesau dihalogi yr ymgwymerwyd â hwy a sut/pwy sydd wedi'u cyflawni. Systemau meddalwedd tracio ac olrhain digidol yw'r dewis

cyntaf er mwyn sicrhau system gadarn a dilys y gellir ei harchwilio a'i defnyddio i sicrhau bod manylion llawn y prosesau'n cael eu cofnodi. Maent hefyd yn cefnogi ymarfer edrych yn ôl cyflym i olrhain croes-heintio posibl neu heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd o ddefnyddio'r ddyfais. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn gweithio tuag at system olrhain ddigidol ar gyfer HLD dyfeisiau lled-gritigol. Rhaid i systemau tracio ac olrhain ar gyfer HLD chwiliedyddion uwchsain gynnwys:

- Data adnabod defnyddiwr gwasanaeth/claf y defnyddir y ddyfais arno yn unol â phrotocol y GIG.
- Man/lleoliad dihalogi (gan gynnwys cyfeiriad, ystafell, clinig).
- Y cynnyrch (cynhyrchion) a ddefnyddir - rhifau cyfresol a dyddiadau dod i ben pob un ohonynt.
- Data ac amser dihalogi - Hyd prosesau (os yw'n berthnasol).
- Enw'r person sydd wedi ymgymryd â'r broses ddihalogi - mewn llythrennau bras a llofnod (enw a dyddiad) ar gyfer systemau llaw.
- Llyfrau cofnodion penodol ar gyfer systemau llaw a gedwir am 11 mlynedd.
- Rhaid i'r cofnod fod yn gyflawn ac yn ddarllenadwy i'w archwilio.

Mae gan Ddeddf Diogelu Defnyddwyr (1987) (6), ac yn benodol Atebolrwydd Cynnyrch oblygiadau ar gyfer prosesu dyfeisiau a ddefnyddir ar gyfer gofal defnyddwyr gwasanaeth/cleifion. Mae'n hanfodol cadw cofnodion digonol sy'n dangos sut y cafodd dyfais benodol ei phrosesu. Bydd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP), Cyfarwyddiadau Gweithio a chofnodion olrhain yn cynnwys manylion y cynhyrchion a ddefnyddir gan y defnyddiwr. Mae hyn yn cynnwys disgrifiad o'r dull(iau) a ddefnyddiwyd ynghyd â manylion y personél hyfforddedig sydd ar gael gyda chopïau o gofnodion hyfforddi. Dylai fod gan y sefydliad y gallu i ddangos sut mae offer/cyfarpar wedi'u prosesu drwy'r cylch dihalogi.

7. Storio Cynhyrchion Di-haint a Dyfeisiau Meddygol/Cyfarpar Gofal wedi'u Dihalogi

7.1 Nwyddau di-haint

Dylai storfa gael ei chynllunio'n briodol a'i darparu er mwyn:

- atal difrod a diogelu'r deunydd pacio - bydd pecyn wedi'i dorri'n arwain at halogiad.
- Atal defnyddwyr gwasanaeth neu'r maes clinigol rhag dod i gysylltiad â halogiad.

- Sicrhau bod y tymheredd storio'n gywir yn unol â chyngor y gwneuthurwr - os yw'r tymheredd yn rhy uchel neu'n rhy isel bydd hyn yn effeithio ar oes silff a swyddogaeth bosibl y cynnyrch, e.e. gall plastigau neu fenig fynd yn frau. Rhaid storio cynhyrchion i ffwrdd o olau haul uniongyrchol a dŵr mewn amgylchedd diogel, sych ac oer.
- Sicrhau'r lefel lleithder gywir fel y cyngorir gan y gweithgynhyrchwr.
- Sicrhau bod digon o le i ganiatáu ar gyfer cylchdroi stoc yn llym - dylid gwirio dyddiadau bob mis.
- Sicrhau bod gan silffoedd, droriau, rheseli a chypyrddau arwynebau anhydraidd er mwyn eu glanhau'n hawdd. Yn ddelfrydol, caniatáu i lwch neu ronynnau gwympto i'r llawr a chaniatáu i aer symud yn rhydd o amgylch y cynnyrch sydd wedi'i storio. Mae angen amserlen lanhau fisol arferol o leiaf i sicrhau bod yr holl storfa'n parhau i fod yn lân.
- Rhaid storio cynhyrchion uwchlaw lefel y llawr.

Cyn eu defnyddio, dylid gwirio cynhyrchion di-haint i sicrhau'r canlynol:

- Bod y pecyn yn gyfan ac nid yw wedi bod yn agored i faw/llwch/lleithder/difrod ac ati ac nid yw dyddiad dod i ben y cynnyrch wedi mynd heibio.
- Bod y dangosydd sterileiddio yn cadarnhau bod y pecyn wedi bod yn destun proses sterileiddio briodol.

7.2 Dyfeisiau Meddygol/Cyfarpar Gofal

Dylid dyrannu a chynllunio storfa yn briodol er mwyn:

- Atal difrod a diogelu'r ddyfais neu'r cyfarpar.
- Cadw at yr hyn a ddisgrifiwyd gan y gweithgynhyrchwr - efallai y bydd angen cadw dyfeisiau arbenigol mewn blychau storio/cynwysyddion penodol er mwyn atal difrod i rannau bregus.
- Caniatáu mynediad hawdd a chydymffurfio â gofynion codi a chario.
- Sicrhau bod gan silffoedd, lloriau a chypyrddau arwynebau anhydraidd er mwyn eu glanhau'n hawdd. Yn ddelfrydol, caniatáu i lwch neu ronynnau gwympto i'r llawr a chaniatáu i aer symud yn rhydd o amgylch y cynnyrch sydd wedi'i storio. Mae angen amserlen lanhau fisol reolaidd i gynnal glendid pob man storio.
- Os oes angen, darparu ar gyfer gwefru'r ddyfais.
- Rhaid storio dyfeisiau i ffwrdd o olau haul uniongyrchol a dŵr mewn amgylchedd diogel, sych ac oer fel bod y tymheredd a'r lleithder cywir yn cael eu cynnal.

- Pan na chaiff y cyfarpar ei ddefnyddio, mae hyn yn ei atal rhag dod i gysylltiad â halogiad gan ddefnyddwyr gwasanaeth neu'r man clinigol. Ystyriwch orchuddio'r cyfarpar i atal llwch rhag ymgasglu a halogiad posibl.
- Mae'n hanfodol sychu cyfarpar yn drylwyr cyn ei storio neu ei ddefnyddio ar y claf nesaf.
- Ystyriwch orchuddio'r cyfarpar i atal llwch rhag ymgasglu a halogiad posibl.

8. Cludiant

Rhaid cludo cyfarpar, dyfeisiau meddygol a nwyddau glân/di-haint gan gynnwys offer mewn modd sy'n atal achos o halogi microbaidd neu ddifrod, ac mewn modd sy'n diogelu'r unigolyn sy'n eu cludo, ac felly:

- Rhaid i unrhyw gynwysyddion a ddefnyddir ar gyfer cludo fod wedi'u neilltuo ac yn addas i'r diben, yn hawdd eu cloi ac yn hawdd eu dihalogi i'w hailddefnyddio.
- Rhaid glanhau unrhyw fewnosodiadau sy'n cefnogi'r ddyfais wrth ei chludo yn hawdd hefyd.
- Rhaid i gofnodion o ba eitemau o ddyfeisiau a chyfarpar sy'n cael eu cludo, ar ba ddyddiad, gan bwy, a rhwng pa leoliadau gael eu gwneud a'u cadw i'w harchwilio.
- Dylid nodi 'BIOHAZARD' ar gynwysyddion, troliâu, blychau ac ati a ddefnyddir i gludo eitemau budr. Gallai hyn fod yn ddyfais neu gyfarpar na allai'r adran ei (d)dihalogi a bydd tystysgrif ddihalogi ynghlwm wrthi/wrtho hefyd (Gweler **Atodiad 8.**)
- Dylid nodi 'DECONTAMINATED MEDICAL DEVICES' ar gynwysyddion, troliâu, blychau ac ati a ddefnyddir i gludo eitemau wedi'u diheintio.
- Rhaid cadw dyfeisiau sydd wedi'u halogi a'u dihalogi neu nwyddau di-haint/glân ar wahân ac yn ddelfrydol mewn cerbydau gwahanol.

9. Dihalogi cyfarpar cyn archwilio, gwasanaethu neu atgyweirio

Rhaid i'r holl gyfarpar gael ei ddihalogi'n briodol cyn ei archwilio, ei wasanaethu neu ei drwsio yn unol â HSG (93) 26 Adran Iechyd Lloegr (1993)

. Rhaid cwblhau tystysgrif ddihalogi sy'n nodi os cafodd ei ddihalogi a sut y cafodd ei ddihalogi neu os nad oedd modd ei ddihalogi a'r rheswm pam.

Rhaid peidio â rhoi staff a/neu gontractwyr sy'n cyflawni dyletswyddau gwasanaeth, archwilio gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio (ar y safle neu wrth anfon y cyfarpar i safle arall neu at y gwneuthurwr) mewn perygl drwy fod yn agored i eitemau wedi'u halogi. Rhaid dilyn cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr i sicrhau bod pob dyfais a chyfarpar yn cael eu dihalogi'n effeithiol.

Rhaid hefyd gwblhau tystysgrifau dihalogi (gweler **Atodiad 8**) pan fydd cyfarpar/dyfeisiau'n cael eu hanfon i gael eu gwaredu ac/neu eu hailgylchu. Cyn trosglwyddo perchenogaeth a gwaredu dyfeisiau meddygol sydd wedi'u defnyddio, mae'n rhaid eu dihalogi'n ddigonol, a rhaid darparu tystysgrif ddihalogi.

Yn ogystal, rhaid sefydlu systemau gwaith diogel ar gyfer y rhai sy'n archwilio, gwasanaethu neu atgyweirio cyfarpar meddygol neu labordy naill ai mewn safleoedd gofal iechyd neu mewn man arall. Bydd hyn yn sicrhau bod yr eitemau wedi'u hardystio'n rhai sydd wedi'u dihalogi'n briodol cyn gwneud gwaith er mwyn atal dod i gysylltiad â haint a gwasanaeth post wedi'i ddihalogi, a chyn gwneud gwaith atgyweirio i sicrhau nad yw halogiad o'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i leoliadau clinigol neu samplau ac ati.

10. Monitro ac archwilio

Bydd adrannau clinigol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd rhan mewn rhaglen archwilio y cytunwyd arni (yn flynyddol o leiaf) y cytunwyd arni drwy'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a gyda rheolwr y gwasanaeth. Bydd y rhaglen yn cynnwys Atal a Rheoli Heintiau a glendid dyfeisiau meddygol a chyfarpar gofal gan ddefnyddio dulliau archwilio safonol wedi'u cytuno gan y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau. Bydd y canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Grŵp Rheoli Heintiau, yn ogystal â'r arweinydd gweithredol/cyfrifol a'r swyddog Dyfeisiau Meddygol a bydd archwiliadau'n cael eu dilysu gan y Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau.

Yn unol â Pholisi a Gweithdrefn Rheoli Digwyddiadau Iechyd Cyhoeddus Cymru, rhaid cofnodi digwyddiadau ar Datix yn y ffordd arferol o fewn 24 awr i'r digwyddiad yn cael ei adrodd. Mae'n rhaid i unrhyw ddigwyddiadau sy'n dod o fewn y diffiniad 'Digwyddiad Adroddadwy Cenedlaethol' gael eu hadrodd yn genedlaethol yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Polisi Cenedlaethol ar Adrodd a Rheoli Digwyddiadau Diogelwch Cleifion.

Mae manylion ynghylch sut i gyflwyno adroddiadau o'r fath wedi'u cynnwys yn y Polisi a'r Weithdrefn Rheoli Digwyddiadau. Defnyddir proses adrodd am ddigwyddiadau trwy Datix i hysbysu'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau am unrhyw ddigwyddiadau, cwynion, achosion o ddod i gysylltiad ac ati gan gynnwys damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Dylai ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol gynnwys adroddiad cryno a gyflwynir i'r Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a'i ychwanegu at Datix. Bydd hwn yn disgrifio'r achosion gwirioneddol, camau gweithredu pellach sydd eu hangen, ac unrhyw wersi a ddysgwyd y mae angen eu lledaenu i

wasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru eraill neu'n ehangach, e.e. SMTL a MHRA.

Manylion cyswllt:

Nyrs Arweiniol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (Corfforaethol)
HARP@wales.nhs.uk

Atodiad 1 - Symbolau Pecynnu ar gyfer nwyddau/pecynnau


Mae safon ryngwladol ar gyfer labelu dyfeisiau meddygol sy'n defnyddio symbolau i ddarparu dull gweledol a chyffredinol o rannu gwybodaeth am ddyfeisiau i ddefnyddwyr. Gall cyfieithu rhai termau technegol fod yn agored i'w camddehongli weithiau.























































Defnyddir y symbol canlynol i ddynodi na ddylid ail-ddefnyddio dyfais feddygol, h.y. Defnydd untro



Mae nifer o'r symbolau a ddefnyddir amlaf i'w gweld isod, ynghyd ag esboniad o'u hystyr:

	Cod Swp
	Rhif Cyfresol
	Sylwch: gweler y cyfarwyddiadau defnyddio
	Dyddiad Gweithgynhyrchu
	Dyddiad defnyddio erbyn

STERILE	Di-haint
STERILE R	Wedi'i sterileiddio gan arbelydriad
STERILE 	Wedi'i sterileiddio gan wres
STERILE EO	Wedi'i sterileiddio gan ethylene ocsid

 RADIOACTIVE	 BIOLOGICAL RISKS	 ACU	 SAMPLING SIZE	 FOR IN VITRO DIAGNOSTICS ONLY	 TEMPERATURE LIMITATION	 LOWER LIMIT OF TEMPERATURE	 UPPER LIMIT OF TEMPERATURE	 HUMIDITY LIMITATION	 ATMOSPHERE PRESSURE LIMITATION
 KEEP AWAY FROM HEAT AND RADIATION	 KEEP DRY	 DROPS PER MILLILITER	 LATEX	 NICKEL CHROMIUM	 CHROMIUM	 POLYETHER ETHER KETONE	 POLYETHYLENE	 TITANIUM	 SURGICAL STEEL
 KEEP AWAY FROM SUNLIGHT	 FRAGILE	 EXPIRY DATE	 DATE OF MANUFACTURE	 MANUFACTURER	 SUFFICIENT FOR N TESTS	 ONE-WAY VALVE	 DON'T USE IF PACKAGE IS DAMAGED	 DON'T RE-USE	 DON'T RE-STERILIZE
 NON-STERILE	 CONSULT ACCOMPANYING DOCUMENT	 CONSULT INSTRUCTION FOR USE	 PROFESSIONAL USE ONLY	 FIRST AID MEDICINE SYMBOL	 LIQUID FILTER WITH PORE SIZE	 NON-PYROGENIC	 AUTOCLAVABLE BY SPECIFIED TEMPERATURE	 FLUID PATH	 PATIENT NUMBER
 STERILE	 STERILIZED USING STEAM OR HEAT	 STERILIZED USING ASEPTICS	 STERILIZED USING RADIATION	 STERILIZED USING ETHYLENE OXIDE	 STERILE FLUID INSIDE	 SERIAL NUMBER			
 EUROPEAN AUTHORIZED REPRESENTATIVE	 CONTROL	 NEGATIVE CONTROL	 POSITIVE CONTROL	 IN VITRO DIAGNOSTIC	 BATCH CODE	 CATALOG NUMBER			

Atodiad 2 – Byrfoddau ac Ystyr

Byrfodd	Ystyr
IFU	Cyfarwyddiadau ar sut i'w defnyddio - gwybodaeth a ddarperir gan y gwneuthurwr i hysbysu defnyddiwr y ddyfais o'i defnydd diogel a phriodol, o'i pherfformiadau arfaethedig ac am unrhyw ragofalon i'w cymryd o dan Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002.
IPC	Atal a Rheoli Heintiau - dull ymarferol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i atal cleifion a gweithwyr iechyd rhag niwed a achosir gan heintiau y gellir eu hosgoi.
Iechyd a Diogelwch	Iechyd a Diogelwch – y nod o greu a chynnal amgylcheddau diogel ac iach i bobl weithio a byw ynddynt drwy nodi, asesu a rheoli peryglon a risgiau posibl.
HCAI	Haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd
MHRA	Yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd - sy'n rheoleiddio meddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a chydannau gwaed ar gyfer trallwysu yn y DU.
ICC	Iechyd Cyhoeddus Cymru – y sefydliad.
PPE	Cyfarpar Diogelu Personol - yr holl gyfarpar y bwriedir ei wisgo neu ei ddal gan berson yn y gwaith ac sy'n ei amddiffyn rhag un neu fwy o risgiau i'w iechyd neu ddiogelwch, ac unrhyw beth ychwanegol neu ategolyn sydd wedi'i gynllunio i fodloni'r amcan hwnnw.
SMTL	Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol - darparu gwasanaethau profi a thechnegol mewn perthynas â dyfeisiau meddygol i GIG Cymru.
SOP	Gweithdrefn Gweithredu Safonol - set o gyfarwyddiadau ysgrifenedig sy'n disgrifio'r broses gam wrth gam y mae'n rhaid ei dilyn i gyflawni gweithgaredd arferol yn gywir.
SBAR	'Sefyllfa, Cefndir, Camau Gweithredu/Asesu, Argymhellion' – templed adroddiad sy'n darparu ffordd safonol o gyfathrebu materion.

Atodiad 3 - Cylch Bywyd Dihalogi

Cylch Bywyd Dihalogi Dyfeisiau Di-haint y Gellir eu Hailddefnyddio





Diagram cylch bywyd dihalogi – chwiliedyddion lled-gritgol (dim sterileiddio)




Er mwyn cynnal dihalogi'n effeithiol mae angen i'r holl brosesau a ddangosir yn y cylch bywyd gael eu gweithredu'n gywir, gyda'r holl reolaethau a chyflymde ar waith r monitro pa ddyfeisi meddygol sy'n mynd drwy'r cylch effeithio ar effeithiolrwydd dihalogi. Ffactor allweddol sy'n dylanwadu ar hyn yw maint y stoc o ddyfeisiau sydd angen eu prosesu. Cyflawni mae safonau gofynnol ar bob cam o'r cylch bywyd yn dibynnu ar leoliad; cyfleusterau sydd ar gael; cyfarpar a polisiau a gweithdref ddefnyddi

Atodiad 4 – [Algorithm Dihalogi WHTM 01-06 rhan F](#)

Appendix 2:

Semi-critical Ultrasound Probe (Semi-invasive and Non-invasive) Decontamination Algorithm (A guide developed from NHS Scotland Guidance Document, 2016).

Decontamination Algorithm (Adapted from NHS Scotland Guidance Document, 2016)



Atodiad 5 - Pum egwyddor Glanhau gan Ddefnyddio Weips Arwyneb

The five principles of cleaning



Recommended for use with Clinell Wipes



Wipe in an 'S' shaped pattern



Work from top to bottom



Wipe from clean to dirty




Ensure correct contact time



One wipe, one surface

Atodiad 6 - Dihalogi cyfarpar gofal anymwthiol y gellir ei aildddefnyddio



* Scottish National Blood Transfusion Service and Scottish Ambulance Service use products that differ from those stated in the National Infection Prevention and Control Manual.


Part of the National Infection Prevention and Control Manual (NIPCM), available at: <http://www.nipcm.hps.scot.nhs.uk/>. Produced by: Health Protection Scotland, July 2018.



<https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/ymwrthedd-a-heintiau-gwrthfotig/>

Add a line about produced by and permission to use.

Atodiad 7 - Rheoli gollyngiadau gwaed a hylif y corff



* Scottish National Blood Transfusion Service and Scottish Ambulance Service use products that differ from those stated in the National Infection Prevention and Control Manual.

** Refer to [http://www.hfs.scot.nhs.uk/publications/1575969155-SAN\(SC\)1903.pdf](http://www.hfs.scot.nhs.uk/publications/1575969155-SAN(SC)1903.pdf) for further information in Scotland or <https://www.cas.mhra.gov.uk/ViewandAcknowledgeAlert/ViewAlert.aspx?AlertID=102937> in England.

Atodiad 8 – Enghraifft o dystysgrif ddihalogi



GIG
NHS
 Iechyd Cyhoeddus
 Cymru
 Public Health
 Wales

SERVICING AND DECONTAMINATION FORM FOR MEDICAL DEVICES

FROM:

TO:

Make and description of equipment/item

Model/Serial/Batch No.

Other distinguishing marks

This equipment/item has been cleaned in preparation for inspection, servicing repair or transportation Yes No

1. Has this equipment/item been used in any invasive procedure or been in contact with blood, other body fluids, respired gases, or pathological samples? Yes No

2. Has this equipment/item been exposed internally or externally to hazardous materials as indicated below? Yes No

Provide further details here

Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/>	Blood, tissue, body fluids, respired gases, pathological samples	
Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/>	Chemicals or substances hazardous to health	
Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/>	Other hazards/biohazards	

3. Has the item/equipment been suitably decontaminated? If YES, indicate method and materials used.

Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/>	External	
Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/>	Internal	

4. If the equipment/item could not be decontaminated, please indicate why:

5. If the equipment/item could not be decontaminated, state the nature of the risk and the precautions to be adopted:

6. Has the equipment/item been suitably prepared to ensure safe handling/transportation? Yes No

7. Has the item/equipment been involved in a reportable incident or occurrence?

Yes <input type="checkbox"/> No <input type="checkbox"/>	If yes, briefly describe

I declare that I have taken all reasonable steps to ensure the accuracy of the above information.

Signature _____ Division _____

Name (print) _____ Position _____ Date _____